
# ASTUDIAETH CHIMES:

**Ymyriadau i wella deilliannau iechyd meddwl a lles ymhlith plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal**

## Beth wnaethon ni ei ddysgu?



### Pam oedd angen yr astudiaeth hon?



- Bydd iechyd meddwl a lles rhai pobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn waeth na'r rhai sydd heb.
- Yn y DU, mae polisïau ac argymhellion i wella darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u defnyddio yn y gorffennol, ond nid yw'n glir beth sy'n gweithio.

### Beth yw ystyr 'profiad o dderbyn gofal'?

Gallai plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal gynnwys y rhai sy'n byw gyda gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthynas neu mewn gofal preswyl.

### Beth oedd amcanion CHIMES?

Casglu ac adolygu tystiolaeth ryngwladol ar ymyriadau sy'n:

- Gwella iechyd meddwl a lles plant a phobl ifainc.
- Asesu a yw'r rhaglenni hyn yn gallu cael eu defnyddio'n llwyddiannus yn y DU.



### Pa ddulliau a ddefnyddiwyd?

Roedd ein hadolygiad dulliau cymysg yn cynnwys:

- Trefnu ac adolygu tystiolaeth
- Dadansoddi'r canlyniadau'n fanwl
- Gwerthuso'r effeithiolrwydd o ran cost

### Beth oedd y prif ganfyddiadau?



- Fe wnaethon ni nodi dau ymyriad â blaenoriaeth i'w hystyried ar gyfer eu defnyddio yn y DU:

1. Mentora gan unigolion sydd â gwybodaeth a phrofiad o dderbyn gofal;
2. Newidiadau system ac ethos er mwyn gweithio ar y cyd a meithrin perthnasoedd rhwng sefydliadau.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal yn comisiynu gwerthusiadau mewn perthynas â hyn.

- Fe wnaethon ni hefyd ddatblygu cyfres o 10 cwestiwn craidd i lunwyr polisïau ac ymarferwyr eu hystyried wrth roi ymyriadau ar waith sy'n mynd i'r afael ag iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Mae modd gweld y cwestiynau hyn gan ddefnyddio'r côd QR isod.

Sganiwch i weld y papurau CHIMES:

Cwestiynau Craidd CHIMES:

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru / Health and Care Research Wales
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
Prifysgol Bangor University
DECIPHer – Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement – A Public Health Research Centre of Excellence
University of Exeter
Funded by NIHR | National Institute for Health and Care Research
Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
The Fostering Network